| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Ionawr 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Prif Swyddog Cyllid |
| **Teitl:** | **1.** Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2019/20 a Dangosyddion Darbodus 2019/20 i 2021/22 (Atodiad 1)<br>**2.** Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys (RhT) 2018/19 (Atodiad 2) |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r DSRhT (Atodiad 1) yn dangos sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn pennu'r polisïau ar gyfer gweithredu'r swyddogaeth RhT. Mae Adroddiad Diweddaru RhT (Atodiad 2) yn rhoi manylion gweithgareddau RhT y Cyngor yn ystod 2018/19.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys (y "Cod RhT SSCCCh") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r DSRhT a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adolygu'r adroddiad hwn cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 19 Chwefror 2019. Ar ben hynny, rhan o rôl y Pwyllgor yw derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau RhT ddwywaith y flwyddyn.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn adolygu DSRhT 2019/20 a Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20, 2020/21 a 2021/22 (Atodiad 1).

3.2 Bod aelodau'n nodi adroddiad diweddaru RhT (Atodiad 2).

3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4 Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

4.1 Mae RhT yn golygu edrych ar ôl arian parod y Cyngor, sy'n rhan hanfodol o waith y Cyngor gan fod tua £0.5bn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.

4.2 Ar unrhyw un adeg, mae gan y Cyngor hyd at £20m mewn arian parod, felly mae angen iddo wneud yn siŵr ei fod yn cyflawni'r gyfradd enillion orau bosibl heb roi’r arian parod mewn perygl, a dyma pam ein bod yn buddsoddi arian gyda nifer o sefydliadau ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch);
- sicrhau bod yr arian yn dod yn ôl pan fydd ei angen (hylifedd);
- sicrhau ein bod yn cael cyfradd elw dda (arenillion).

**DSRhT 2019/20**

4.3 Mae DSRhT 2019/20 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgarwch RhT y Cyngor fel y dangosir yn Atodiad 1 yn Atodiad A.

**Dangosyddion Darbodus Cyfalaf**

4.4 Mae’r Cyfalaf sydd yn berthnasol i’r Dangosyddion Darbodus wedi cael eu heithrio o’r DSRhT a bydd yn awr yn cael ei ychwanegu yn yr Adroddiad Strategaeth Cyfalaf sydd yn adroddiad newydd a gyflwynwyd gan argraffiad 2017 o’r Cod Darbodus. Ei fwriad yw rhoi trosolwg lefel uchel, byr a chynhwysfawr i’r holl aelodau etholedig o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau’r Cyngor.

4.5 Bydd yr Adroddiad Strategaeth Cyfalaf yn cael ei adrodd i’r Cyngor ym mis Chwefror ochr yn ochr â’r Cynllun Cyfalaf a bydd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus canlynol sydd yn berthnasol i’r Cyfalaf:

Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf ac Ariannu
Cymhareb o Gostau Ariannu i Ffrwd Refeniw Net
Gofyniad Cyllido Cyfalaf
Terfyn awdurdodedig a Ffin Gweithredol ar gyfer Dyled Allanol

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae strategaeth RhT effeithlon yn galluogi'r Cyngor i leihau ei gostau benthyca a rhyddhau cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau buddsoddi.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn codi o ganlyniad i bennu Dangosyddion Darbodus. Pwrpas y Strategaeth RhT yw cael yr enillion gorau o fewn fframwaith risg a reolir yn briodol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Dylai cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn benodol,

ystyriaeth briodol i effaith hirdymor penderfyniadau ariannol, gan gynnwys y cyfnod ad-dalu a chostau oes gyfan penderfyniadau buddsoddi cyfalaf, cynigion cyllideb â'u heffaith wedi'i asesu'n briodol a strategaethau dyled a buddsoddiad hirdymor (rheoli trysorlys). Mae egwyddorion pwyll, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd eisoes wedi'u cynnwys o fewn gofynion y Cod Darbodus a dylent fod yn sail i gynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau.

7.2 Yng nghyd-destun rheoli'r trysorlys, mae'r gofynion presennol i asesu ac adrodd ar effeithiau hirdymor penderfyniadau buddsoddi a benthyca, gan ddefnyddio dangosyddion darbodus a chynllunio dyled hirdymor, yn cefnogi nodau cynaliadwyedd y Ddeddf Llesiant.

7.3 Mae adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 ac yn dangos sut mae strategaeth Rheoli Trysorlys effeithIon yn hyrwyddo nodau lles y Ddeddf.

**8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

8.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda'i ymgynghorwyr RhT, sef Arlingclose Ltd

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae Rheoli Trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian parod, felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Cyhoeddodd CIPFA argraffiad 2017 newydd o'r Cod Ymarfer ar Rheoli'r Trysorlys ar ddiwedd 2017. Mae'n ofynnol dan y Cod hwnnw i'r Cyngor gymeradwyo DSRhT pob blwyddyn ariannol.

**10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risgiau cynhenid ynghlwm ag unrhyw weithgaredd Rheoli Trysorlys fel yr amlinellir yn y Datganiad Strategaeth. Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg ond mae'n amhosibl dileu'r risgiau hyn yn gyfan gwbl.

**11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu'r gofyniad i awdurdodau lleol osod Dangosyddion Darbodus ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (SSCCCh).